Cyllid & Tollau EM

Credyd Treth Gwaith
- Help gyda chostau gofal plant



WTC5

Cymorth

Os oes angen cymorth arnoch:

- ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu
- ffoniwch ein llinell gyswllt ar **0845 302 1489** neu ffoniwch **0845 300 3909 ar ffôn testun.**
  I weld pryd rydym ar agor ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**



Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

I ddarganfod beth allwch ddisgwyl gennym ni a beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/eichsiarter.pdf** a darllenwch *Eich Siarter.*

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, awdio ac mewn print bras. Mae ein holl daflenni ac arweiniad hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â'n llinell gymorth os bydd angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Ffoniwch **0845 302 1489** i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Cynnwys

Rhagarweiniad 1
Pwy all hawlio? 1
Pryd i hawlio 2
Pa gostau gofal plant allwch chi eu hawlio? 2

Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy 3
Cymru 3
Lloegr 4
Yr Alban 5
Gogledd Iwerddon 6
Gweision y Goron sy'n gweithio dramor 6

Eich cyfrifoldeb wrth hawlio costau gofal plant 7

Costau gofal plant na allwch hawlio amdanynt 8

Faint o gymorth ar gyfer costau gofal plant allwch chi ei gael? 9

Hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant 10

Sut i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog 11

Newidiadau mae angen i chi ddweud wrthym amdanynt 14
- O fewn mis 14
- O fewn tri mis 15

Sut i gyfrifo os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid 16

Pa newidiadau eraill sydd gennych i ddweud wrthym? 19

Rhagarweiniad

Os ydych yn gweithio ac yn talu am ofal plant efallai y gallwch gael cymorth ychwanegol gyda'r costau. Dyma elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith.
Mae'r arweiniad hwn yn nodi:

- pwy all hawlio
- pryd i hawlio
- pa ofal plant y gallwch chi ei hawlio a
- newidiadau bydd angen i chi ddweud wrthym amdanynt os ydych eisoes yn hawlio cymorth gyda'ch costau gofal plant.

Ar gyfer darparwyr gofal plant

Mae ein taflen wybodaeth *Information for childcare providers (WTC5/CP)* yn nodi beth sydd angen i ddarparwyr gofal plant ei wybod ynglŷn ag elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith.
I gael copi:

- ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** a dewiswch 'leaflets on tax credits' neu
- ffoniwch ein llinell gyswllt Cymraeg.

Pwy all hawlio?

Rhieni sengl

Os ydych yn rhiant sengl gallwch hawlio os ydych fel arfer yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

Cyplau

Os ydych yn rhan o gwpl, gallwch hawlio:

- os yw'r ddau ohonoch fel arfer yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, neu
- os yw un ohonoch fel arfer yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac mae'r llall yn
  - sâl neu'n anabl ac yn hawlio budd-dal anabledd (gweler Budd-daliadau anabledd **ar dudalen 2**), neu
  - claf preswyl mewn ysbyty, neu
  - yn y carchar (p'un ai'n bwrw dedfryd o gaethiwed neu yn cael eich cadw yn y ddalfa wrth ddisgwyl am dreial neu ddedfryd).

Os ydych ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu

Rydym yn eich trin fel pe baech yn gweithio os oeddech, yn syth cyn i chi fynd ar absenoldeb, yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy ac os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn derbyn lwfans mamolaeth
- rydych ar absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu
- rydych yn 13 wythnos gyntaf yr absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu ychwanegol
- rydych ar eich absenoldeb tadolaeth cyffredin pythefnos o hyd, neu hyd at uchafswm o 26 wythnos o absenoldeb tadolaeth ychwanegol.

Os ydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch

Byddwn yn eich trin fel pe baech yn gweithio os yw'r canlynol i gyd yn gymwys:

- rydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch am 28 wythnos neu lai
- roeddech yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy yn syth cyn mynd yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch. Rydym yn eich trin fel pe baech yn gweithio os oeddech:
  - ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu,
  - ar 10 ddiwrnod cyntaf absenoldeb o ganlyniad i streic, neu
  - wedi eich diarddel o'r gwaith

cyhyd â'ch bod yn gweithio 16 awr yr wythnos cyn cymryd absenoldeb neu cyn cael eich diarddel.

- rydych yn derbyn un o nifer o fudd-daliadau'r wladwriaeth, er enghraifft Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Tâl Salwch Statudol neu Gredydau Yswiriant Gwladol oherwydd bod gennych allu cyfyngedig am waith (hynny yw, mae eich salwch neu anabledd yn effeithio ar faint o waith a'r math o waith gallwch ei wneud)

Os nad ydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl 28 wythnos efallai na fyddwch yn gymwys rhagor. Ffoniwch ein llinell gyswllt os bydd hyn yn digwydd.

Rhagarweiniad – parhad

Budd-daliadau anabledd

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweini
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer)
- Budd-dal Anabledd Rhyfel (gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer)
- Budd-dal Treth Cyngor neu Fudd-dal Tai gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Pensiynwyr Uwch ar eich cyfer
- cerbyd o dan y Cynllun Cerbyd i'r Anabl neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ar sail cyfraniadau os ydych wedi cael
  - y lwfans hwn am 28 wythnos neu'n hirach neu
  - Tâl Salwch Statudol (SSP) wedi ei ddilyn gan ESA ar sail cyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu'n hirach.

Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd unrhyw gyfnodau lle talwyd y canlynol i chi:

- ESA ar sail cyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân
- SSP, cyn belled nad oeddent yn fwy na 8 wythnos ar wahân
- SSP, gyda chyfnodau y gwnaethoch dderbyn ESA ar sail cyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân ac roeddech yn bodloni'r amodau cyfrannu ar gyfer ESA ar sail cyfraniadau ar y dyddiau y cawsoch SSP.

Pryd i hawlio

Gallwch hawlio:

- cyn gynted ag ydych yn dechrau defnyddio gofal plant neu
- hyd at saith diwrnod cyn i'ch gofal plant gychwyn.

Mae angen i chi hawlio cymorth gyda chostau gofal plant o fewn tri mis i chi ddechrau ei ddefnyddio – ni allwn eich talu am unrhyw gostau oedd gennych cyn hynny.

Gallwch hawlio cymorth dim ond tuag at eich costau gofal plant ar gyfer unrhyw blentyn hyd at:

- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 15 oed, neu
- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 oed os
  - yw'r plentyn ar gofrestr y deillion a'i fod wedi dod oddi arno yn ystod y 28 wythnos diwethaf neu
  - rydych yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwnnw.

Pa gostau gofal plant allwch chi eu hawlio?

Gallwch hawlio am gostau unrhyw ofal plant cofrestredig neu gymeradwy rydych yn talu amdano. Gallwch hawlio dim ond am y symiau hynny rydych yn eu talu.

Beth sy'n ofal plant cofrestredig neu gymeradwy?

Ar gyfer Cymru – **gweler tudalen 3**.

Ar gyfer Lloegr – **gweler tudalen 4**.

Ar gyfer Yr Alban – **gweler tudalen 5**.

Ar gyfer Gogledd Iwerddon – **gweler tudalen 6**.

Gweision y Goron sy'n gweithio dramor – **gweler tudalen 6**.

Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy Cymru

I gael cymorth ar gyfer costau gofal plant yng Nghymru rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn un o'r canlynol:

- bod yn gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- ysgol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn adeiladau'r ysgol
- awdurdod lleol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
- gweithiwr gofal neu nyrs o asiantaeth sydd wedi ei chofrestru ar gyfer darparu gofal yn y cartref, er enghraifft, gweithiwr gofal cartref
- rhywun a gymeradwywyd gan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant (Cymru) 2007 sy'n rhoi gofal plant yng nghartref y plentyn, neu os gofalir am nifer o blant, yn un o gartrefi'r plant.

Os yw gofalydd maeth cymeradwy yn gofalu am eich plentyn

Gallwch gael cymorth ar gyfer eich costau gofal plant os ydych yn defnyddio gofalydd maeth cymeradwy ond rhaid bod y gofal plant ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth y gofalydd. Rhaid bod eich gofalydd maeth wedi'i gofrestru/chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru os yw eich plentyn o dan 8 mlwydd oed, neu'n gymeradwy o dan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant (Cymru), os yw'r gofal yng nghartref eich plentyn ac mae eich plentyn o dan 16 mlwydd oed.

Sut ydych chi'n gwybod os yw eich gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yng Nghymru?

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i ddarparwyr gofal plant fel tystiolaeth o'u cofrestriad neu gymeradwyaeth os ydynt:

- wedi'u cofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu
- wedi'u cymeradwyo o dan gynllun darparwyr gofal plant.

I wirio os yw eu cofrestriad yn ddilys o hyd cysylltwch â:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

- ewch i **www.aggcc.org.uk**
- ffoniwch **01443 84 84 50**.

Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref Cymru:

- ewch i **www.childcareapprovalschemewales.co.uk**
- ffoniwch **0844 736 0260**.

I gael cymorth gyda chostau gofal plant yn Lloegr, bydd yn rhaid bod eich darparwyr gofal plant wedi'u cofrestru a'u cymeradwyo'n gywir. Ni fyddwch yn gallu hawlio credydau treth os nad ydynt.

Os ydych yn defnyddio gwarchodwr plant, cynllun chwarae, clwb gofal plant neu feithrinfa

Mae angen i'ch darparwr gofal plant fod wedi ei gofrestru yn un o'r ffyrdd canlynol:

- bod yn gofrestredig ar Gofrestr Blynyddoedd Cynnar Ofsted (EYR) os yw eich plentyn yn ieuengach na 5 mlwydd oed
- bod yn gofrestredig ar ran Orfodol o Gofrestr Gofal Plant Cyffredinol Ofsted (GCR) os yw eich plentyn yn 5 i 7 mlwydd oed
- bod yn gofrestredig ar ran Wirfoddol o Gofrestr Gofal Plant Cyffredinol Ofsted os yw eich plentyn yn 8 mlwydd oed neu'n hŷn.

Gwiriwch gyda hwy eu bod ar y gofrestr gywir cyn hawlio ar gyfer eich costau gofal plant.

Mae yna rai darparwyr nad oes yn rhaid iddynt gofrestru ar yr EYR neu ran orfodol y GCR. Gallai'r mathau hyn o ddarparwyr gynnwys:

- y rhai hynny sy'n rhoi gofal ar sail gweithgaredd megis clybiau chwaraeon
- naniod sy'n rhoi gofal yng nghartref y plentyn.

Os ydych yn defnyddio'r math hwn o ddarparwr ac rydych am gael cymorth gyda'ch costau gofal plant, bydd angen i'ch darparwr gofrestru ar ran wirfoddol y GCR.

Os oes gofalydd maeth cymeradwy yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant os ydych am ddefnyddio gofalydd maeth cymeradwy, ond rhaid i'r gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth i'r gofalydd. Rhaid bod eich gofalydd maeth bod wedi ei gofrestru/chofrestru gydag Ofsted ar naill ai eu Cofrestr Blynyddoedd Cynnar neu'r Gofrestr Gofal Plant Cyffredinol.

Os oes gweithiwr gofal neu nyrs yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant os ydych yn defnyddio gweithiwr gofal neu nyrs o asiantaeth sydd wedi ei chofrestru i roi gofal yn y cartref, er enghraifft, gweithiwr gofal cartref.

Os ydych yn defnyddio gofal plant a ddarperir gan ysgol

Os yw eich plentyn yn naill ai 3 neu 4 blwydd oed, bydd y math hwn o ofal hefyd yn cyfrif fel bod yn gymeradwy os yw dau o'r canlynol yn gymwys:

- darperir eich gofal plant o dan arweiniad corff llywodraethol yr ysgol
- mae'r gofal plant yn cael ei gynnal yn adeiladau'r ysgol neu mewn adeiladau eraill sy'n cael eu cwmpasu gan archwiliad Ofsted o'r ysgol gyfan.

Os ydych yn defnyddio gofal plant a ddarperir gan ysgol – parhad

Os yw eich plentyn rhwng 5 mlwydd oed a 15 mlwydd oed (neu'n 16 oed os yw eich plentyn yn anabl) bydd y math hwn o ofal yn cyfrif fel bod yn gymeradwy ar gyfer credydau treth os yw'r canlynol oll yn gymwys:

- Darperir eich gofal plant neu ofal plant ar sail gweithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol.
- Darperir y gofal o dan arweiniad corff llywodraethol yr ysgol.
- Darperir y gofal yn adeiladau'r ysgol, neu mewn adeiladau eraill sy'n cael eu cwmpasu gan archwiliad Ofsted o'r ysgol gyfan. Enghraifft o hyn byddai pe bai'r ysgol yn defnyddio neuadd y pentref ar gyfer ei gweithgareddau gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol.

Addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 a 4 blwydd oed yn Lloegr

Mae gan bob plentyn 3 a 4 blwydd oed, y gofalir amdanynt gan ysgolion neu ddarparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar yr EYR, yr hawl i 15 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar am ddim am 38 wythnos y flwyddyn. Nid oes angen i chi dalu am le addysg gynnar plentyn ac nid oes angen i chi gymryd gwasanaethau ychwanegol er mwyn cael mynediad i'w lle yn rhad ac am ddim.

Ni allwch hawlio cymorth ar gyfer yr hawl am ddim hwn. Gallwch, fodd bynnag, hawlio, am unrhyw ofal plant ychwanegol a dalwch amdano y tu allan i'r hawl rhad ac am ddim.

Sut ydych chi'n gwybod os yw eich gofal plant wedi'i gofrestru neu ei gymeradwyo yn Lloegr?

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i bob darparwr sydd wedi cofrestru ag Ofsted yn Lloegr fel tystiolaeth o'u cofrestriad neu gymeradwyaeth.

Rhaid i rai darparwyr gofal plant ailymgeisio am gymeradwyaeth neu gofrestriad (er enghraifft, bob blwyddyn). Os yw hyn yn gymwys i'ch darparwr gofal plant, bydd y llythyr neu'r dystysgrif a anfonir atynt yn nodi'n glir pryd y bydd eu cymeradwyaeth neu gofrestriad yn dod i ben.

I wirio os yw eu cofrestriad yn ddilys o hyd cysylltwch ag Ofsted:

- ewch i **www.ofsted.gov.uk**
- ffoniwch **0845 40 40 40.**

Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy Yr Alban

I gael cymorth ar gyfer costau gofal plant yn Yr Alban, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn un o'r canlynol:

- bod yn gofrestredig gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland*
- clwb gofal plant sydd wedi cofrestru gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland* i roi gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
- person o asiantaeth gofal plant cofrestredig, gwasanaeth gwarchodwyr plant neu asiantaeth nanis sy'n rhoi gofal plant yng nghartref y plentyn.

Gallwch hefyd hawlio cymorth tuag at eich costau gofal plant yn Yr Alban os ydych yn defnyddio:

- gofalydd maeth cymeradwy neu
- gofalydd perthynas

ond rhaid i'r gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth y gofalydd neu'n blentyn i berthynas y gofalydd. Rhaid bod gofalydd maeth neu ofalydd perthynas fod wedi cofrestru gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland* fel gwarchodwr plentyn neu ddarparwr gofal dydd.

Sut ydych chi'n gwybod os yw eich gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yn Yr Alban?

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i bob darparwr sy'n gofrestredig gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland* fel tystiolaeth o'u cofrestriad neu eu cymeradwyaeth.

Mae'n rhaid i rai darparwyr gofal plant ailymgeisio'n rheolaidd ar gyfer cymeradwyaeth neu gofrestriad (er enghraifft, bob blwyddyn). Os yw hyn yn gymwys i'ch darparwr gofal plant, bydd y llythyr neu'r dystysgrif a anfonir atynt yn nodi'n glir pryd bydd eu cymeradwyaeth neu gofrestriad yn dod i ben.

I wirio os yw eu cofrestriad yn ddilys o hyd cysylltwch â'r *Care Commission*:

- ewch i **www.carecommission.com**
- ffoniwch **0845 603 0890**.

Gogledd Iwerddon

I gael cymorth ar gyfer costau gofal plant yng Ngogledd Iwerddon rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn un o'r canlynol:

- wedi ei gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- ysgol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol yn adeiladau'r ysgol
- Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
- person a gymeradwywyd gan y Cynllun *Approval of Home Child Care Providers (Northern Ireland)* 2006, sy'n rhoi gofal plant yng nghartref y plentyn.

Os yw gofalydd maeth yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant os ydych yn defnyddio gofalydd maeth cymeradwy ond rhaid i'ch gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth y gofalydd. Rhaid i'r gofalydd maeth fod yn gofrestredig gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol os yw eich plentyn o dan 12 mlwydd oed, neu'n gymeradwy o dan y Cynllun *Home Child Care Providers (Northern Ireland)*, os yw'r gofal yng nghartref eich plentyn ac mae eich plentyn o dan 16 mlwydd oed.

Gweision y Goron sy'n gweithio dramor

Os ydych yn was sifil neu'n aelod o'r Lluoedd Arfog gyda swydd dramor ac mae eich plentyn wedi mynd gyda chi, fel arfer gallwch hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant. Ond gallwch wneud hyn dim ond os yw eich darparwr gofal plant yn gymeradwy gan gynllun achredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn dramor.

Sut ydych chi'n gwybod os yw eich gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yng Ngogledd Iwerddon?

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i ddarparwyr gofal plant fel tystysgrif o'u cofrestriad os ydynt:

- wedi eu cofrestru gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neu
- yn gymeradwy o dan y Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref.

Er mwyn gwirio os yw eu cofrestriad yn ddilys o hyd cysylltwch â'r Tîm Blynyddoedd Cynnar yn eich Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol lleol.

Am ragor o wybodaeth:

- ewch i **www.nidirect.gov.uk** a
- chwiliwch am 'Early Years Teams'.

Eich cyfrifoldeb wrth hawlio costau gofal plant

Ni allwch hawlio cymorth ar gyfer eich gofal plant os nad yw'n gofrestredig neu'n gymeradwy. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y gofal plant rydych yn ei ddefnyddio'n gofrestredig neu'n gymeradwy.

Dylech:

- gwirio dogfennau eich darparwr gofal plant er mwyn cadarnhau eu bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy
- cadw cofnod o'r dyddiad y mae eu cofrestriad neu gymeradwyaeth yn dod i ben.

Yn agos at y dyddiad y daw i ben, sicrhewch fod eich darparwr gofal plant yn adnewyddu'u cofrestriad neu gymeradwyaeth. Gofynnwch am gael gweld tystiolaeth newydd o gymeradwyaeth neu gofrestriad.

Os yw eich darparwr yn peidio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy, ac rydych am barhau i dderbyn cymorth ar gyfer eich costau gofal plant, gwnewch drefniadau arall ar gyfer gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosib, ac **o fewn mis**, os ydych yn peidio â defnyddio gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Ni fydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn mynd i lawr yn ystod yr wythnos y digwyddodd y newid neu'r tair wythnos ddilynol. Os na fyddwch yn dweud wrthym mewn da bryd, efallai y byddwn yn talu gormod o gredydau treth i chi y bydd yn rhaid i chi eu had-dalu. Yn ogystal efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb o hyd at £300.

Os newidiwch y darparwr, dylech ddweud wrthym hyd yn oed os ydych yn parhau i dalu'r un swm i'r darparwr newydd, gan roi:

- enw'r darparwr
- cyfeiriad y darparwr
- rhif ffôn y darparwr
- rhif cofrestru neu gymeradwyo
- y swm rydych yn ei dalu i'r darparwr ar gyfer gofal plant.

Costau gofal plant na allwch hawlio amdanynt

Ni allwch hawlio ar gyfer unrhyw un o'r canlynol:

- y swm a gewch gan eich cyflogwr tuag at eich costau gofal plant (naill ai mewn arian neu dalebau) – mae hyn yn cynnwys talebau yn gyfnewid am ostyngiad yn eich tâl (gelwir hyn yn 'aberthu cyflog')
- costau gofal plant a delir gan eich awdurdod lleol (neu eich awdurdod addysg lleol) ar gyfer dysgu cynnar neu addysg meithrin i'ch plentyn – er enghraifft lle mae eich awdurdod lleol yn Lloegr yn talu'r gost am 15 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar i blant dros 3 a 4 blwydd oed
- taliadau a gewch gan y llywodraeth tuag at eich costau gofal plant oherwydd eich bod yn fyfyriwr neu'n dechrau gwaith.

Gallwch barhau i hawlio costau gofal plant yr ydych mewn gwirionedd yn talu ar ran eich hunan. Er enghraifft, os yw eich cyflogwr yn talu ychydig o'ch costau gofal plant ar ffurf talebau, gallwch wneud cais am weddill y gost.

Gofal plant a ddarperir gan berthynas

Ni allwch fel arfer hawlio cymorth ar gyfer gofal plant a ddarperir gan berthnasau, hyd yn oed os ydynt yn gofrestredig neu'n gymeradwy. Gallwch hawlio os yw'r perthynas:

- yn warchodwr plant cofrestredig sy'n gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn eich hunan, neu
- yn ddarparwr gofal plant, a gymeradwywyd o dan y Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yng Nghymru neu yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn – ond rhaid ei fod/bod hefyd yn gofalu am o leiaf un plentyn arall nad yw'n perthyn iddo/iddi.

Talebau gofal plant

Os yw eich cyflogwr yn cynnig talebau gofal plant i chi, gallai effeithio ar faint o gredydau treth gallwch eu derbyn.

Os ydych am wybod, p'un a fyddech ar eich ennill yn cymryd y talebau gofal plant, ewch i **www.hmrc.gov.uk/calcs/ccin.htm**

Yr hyn a olygwn pan ddywedwn berthynas

Gallai perthynas olygu:

- rhiant
- taid/tad-cu neu nain/mam-gu
- modryb neu ewythr
- brawd neu chwaer
- llysriant.

Faint o gymorth ar gyfer costau gofal plant allech chi ei gael?

Gallwch gael cymorth gyda hyd at 70 y cant o'ch costau gofal plant – yn amodol ar y terfyn uchaf o ran swm y costau gofal plant y gallwch eu hawlio bob wythnos.

Os ydych yn talu gofal plant ar gyfer:

- un plentyn, swm uchaf y costau gofal plant gallwch ei hawlio yw £175 yr wythnos.
- dau neu fwy o blant, swm uchaf y gost gallwch ei hawlio yw £300 yr wythnos.

Golyga hyn mai swm uchaf y cymorth gallwch ei hawlio ar gyfer eich gofal plant drwy gredydau treth yw:

- £122.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn
- £210 yr wythnos ar gyfer dau neu fwy o blant.

Bydd y swm gwirioneddol a gewch yn dibynnu ar eich incwm. Po isaf eich incwm, po fwyaf o gredydau treth a gewch.

Os ydych yn cyflogi rhywun sydd yn ddarparwr gofal plant yn y cartref cofrestredig neu gymeradwy, er enghraifft nani, gallwch gael cymorth ar gyfer hyd at 70 y cant o'r costau gros o'i gyflogi – o fewn y terfynau gyferbyn. Gallwch gynnwys:

- costau unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a dalwch
- costau unrhyw fuddiannau a rowch ac
- unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogi'r person hwnnw.

Nifer y plant	Terfyn wythnosol ar gostau	Canran y costau y gallwch gael cymorth ar eu cyfer	Uchafswm y credydau treth ar gyfer gofal plant
Un plentyn	£175	70%	£175 x 70% = £122.50
Dau neu fwy o blant	£300	70%	£300 x 70% = £210.00

Sut i hawlio credydau treth

Os ydych am dderbyn pecyn cais:

- ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489** neu
- defnyddiwch Ffôn Testun ar **0845 300 3909.**

Ar gyfer ein horiau agor ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

Pryd i hawlio

Gallwch hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant:

- cyn gynted ag ydych yn dechrau talu costau gofal plant neu
- os ydych wedi trefnu darparwr gofal plant, hyd at saith diwrnod cyn i'r gofal plant ddechrau neu
- hyd yn oed os mai dim ond ar gyfer cyfnod byr rydych angen y gofal plant - *gweler **tudalen 13***.

Mae angen i chi hawlio cymorth ar gyfer costau gofal plant o fewn tri mis o'r adeg rydych yn dechrau eu talu - ni allwn eich talu am unrhyw gostau rydych wedi eu talu cyn hynny.

Pa wybodaeth fyddwn ei hangen gennych?

Fel rhan o'ch cais, p'un a ydych yn llenwi'r ffurflen gais credydau treth neu'n ffonio'n Llinell Gymorth, byddwn angen y canlynol gennych:

- manylion cyswllt ar gyfer eich darparwr gofal plant, gan gynnwys
  - enw'r darparwr
  - y cyfeiriad, gan gynnwys y cod post
  - y rhif ffôn
  - enw'r corff cofrestru neu gymeradwyo
  - rhif cofrestru neu gymeradwyo os rhoddwyd un iddynt pan wnaethant gais ar gyfer cofrestru neu gael eu cymeradwyo a
- cyfartaledd eich costau gofal plant wythnosol - *gweler **tudalennau 11 i 13***.

Gallwn wirio'r wybodaeth gyda'ch darparwr, felly byddwn angen manylion cywir ar eu cyfer.

Os ydych yn defnyddio mwy nag un darparwr gofal plant, neu os ydych yn defnyddio darparwr gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn (er enghraifft, yn ystod gwyliau ysgol), bydd angen i chi roi manylion eich holl ddarparwyr. Dywedwch wrthym cyn gynted â phosib os ydych yn newid eich darparwr/darparwyr.

Dywedwch wrthym hefyd cyn gynted â phosib pryd rydych yn peidio â defnyddio gofal plant i osgoi cronni gordaliad o gredydau treth, a fydd yn rhaid i chi ei ad-dalu.

Sut i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog

Pan rydych yn hawlio gyntaf, rydym yn cyfrifo faint o gymorth gallwch ei gael drwy ddefnyddio'r costau gofal plant wythnosol cyfartalog a dalwch. Ar y ffurflen gais dim ond eich costau wythnosol cyfartalog sydd angen i chi eu nodi, ond bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cyfrifo'r cyfartaledd yn y modd cywir.

Mae'r modd rydych yn cyfrifo'ch costau wythnosol cyfartalog yn dibynnu ar y modd rydych yn talu am ofal plant. Talgrynnwch eich cyfartaledd i fyny i'r bunt agosaf. *Gweler **tudalennau 11 i 13***.

Hawlio credydau treth am y tro cyntaf

Er mwyn hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant parhaus

Llenwch **Ran 3** o'r ffurflen gais wrth hawlio credydau treth.

Er mwyn hawlio cymorth ar gyfer cyfnod gofal plant sefydlog byr

1. Dylech hepgor manylion eich gofal plant wrth hawlio credydau treth.
2. Anfonwch eich ffurflen gais atom.
3. Dylech ein ffonio ni unwaith mae eich dyfarniad wedi dechrau cael ei dalu - peidiwch â'n ffonio ni cyn y cyfnod o saith diwrnod cyn i'ch gofal plant ddechrau.

*Gweler **tudalen 13** am ragor o wybodaeth ynglŷn â hawlio am gyfnodau byr o ofal plant.*

A ydych eisoes yn derbyn credydau treth?

Os ydych yn derbyn credydau treth eisoes ond yn dechrau talu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy ac rydych am hawlio cymorth ar gyfer eich costau, ffoniwch y Llinell Gyswllt Cymraeg.

Beth i'w gynnwys yn eich costau gofal plant

Dylech gynnwys dim ond yr hyn rydych chi eich hunan yn ei dalu mewn gwirionedd wrth gyfrifo'ch costau wythnosol cyfartalog.

Peidiwch â chynnwys costau sy'n cael eu cwmpasu gan unrhyw un o'r canlynol:

- taliadau gofal plant gan eich cyflogwr - naill ai mewn arian neu dalebau gofal plant.
- talebau gofal plant yn gyfnewid am ostyngiad yn eich tâl - gelwir hyn yn 'aberthu cyflog'
- taliadau neu grantiau gofal plant gan Gynllun Llywodraeth, er enghraifft i'ch helpu i ddechrau gwaith neu swm sydd wedi'i gynnwys yn eich grant myfyriwr.
- costau gofal plant sy'n cael eu talu gan eich awdurdod addysg neu leol ar gyfer gofal ysgol feithrin eich plentyn.

Sut i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog

Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am lai na blwyddyn

Os ydych eisoes yn defnyddio gofal plant

Defnyddiwch y tabl hwn i'ch helpu i gyfrifo eich costau wythnosol cyfartalog.

Rydych yn talu'n wythnosol – yr un swm bob tro	Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob wythnos - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog
Rydych yn talu'n wythnosol – symiau gwahanol	1. Cyfrifwch beth rydych yn disgwyl ei wario yn gyfan gwbl ar ofal plant dros y 52 wythnos nesaf - cychwynnwch o'r dyddiad rydych yn cyfrifo'ch costau. 2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.
Rydych yn talu'n fisol – yr un swm bob tro	1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob mis. 2. Lluoswch y swm hwnnw â 12. 3. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.
Rydych yn talu symiau misol gwahanol, neu'n talu drwy unrhyw amlder arall	1. Cyfrifwch beth rydych yn disgwyl ei wario ar ofal plant yn gyfan gwbl dros y 12 mis nesaf - cychwynnwch o'r dyddiad rydych yn cyfrifo'ch costau. 2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.

Talgrynnwch eich cyfartaledd i fyny i'r bunt agosaf bob tro.

Enghraifft – Rydych bob amser yn talu'r un swm

Mae Carwyn yn talu £50 yr wythnos i'w warchodwr plant, felly mae ei gostau wythnosol cyfartalog yn £50 yr wythnos

Os ydych chi newydd drefnu gofal plant – sydd i fod i gychwyn yn y saith diwrnod nesaf.

Gofynnwch i'ch darparwr am amcangyfrif ar bapur o faint byddant yn ei godi arnoch a defnyddiwch y swm i gyfrifo eich costau wythnosol cyfartalog.

Enghraifft – mae eich gofal plant i fod i gychwyn yn ystod y saith diwrnod nesaf

Mae Sioned wedi trefnu talu £100 yr wythnos i feithrinfa i ofalu am ei merch. Bydd yn talu'r un swm bob wythnos. Nid yw'r trefniant yn cychwyn tan wythnos nesaf. Mae costau wythnosol cyfartalog Sioned yn £100

Sut i gyfrifo'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog – parhad

Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am flwyddyn neu'n hirach – ac yn talu'r un swm bob tro

Defnyddiwch y tabl hwn i'ch helpu i gyfrifo'ch costau wythnosol cyfartalog.

Rydych yn talu'n wythnosol	Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob wythnos - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.	**Rydych yn talu bob pedair wythnos**	1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob pedair wythnos. 2. Rhannwch y swm â phedwar - dyma eich costau gofal plant cyfartalog.
Rydych yn talu'n fisol	1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob mis. 2. Lluoswch y swm hwnnw â 12. 3. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.	**Rydych yn talu'n flynyddol**	1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob blwyddyn. 2. Rhannwch y swm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.
Rydych yn talu bob pythefnos	1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob pythefnos. 2. Rhannwch y cyfanswm â dau - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.	**Rydych yn talu fesul/ bob tymor**	Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg am gymorth gyda chyfrifo'ch costau.

Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am flwyddyn neu'n hirach – ac yn talu symiau gwahanol

Weithiau efallai y byddwch yn talu – neu'n disgwyl talu – symiau gwahanol ar gyfer gofal plant. Er enghraifft, rydych yn defnyddio gofal plant yn rheolaidd, ond efallai byddwch yn talu mwy – neu lai – yn ystod gwyliau'r ysgol nag y byddech yn ei wneud yn ystod y tymor.

Cyfrifwch eich costau cyfartalog fel a ganlyn:

1. cyfrifwch y cyfanswm rydych wedi'i dalu am ofal plant yn y 52 wythnos diwethaf. (neu 12 mis diwethaf os ydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall) – ewch yn ôl o'r dyddiad rydych yn cyfrifo'ch costau.
2. Rhannwch y cyfanswm â 52 – dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.

Os ydych dim ond yn defnyddio gofal plant am gyfnodau byr nawr ac yn y man

Hyd yn oed os nad ydych yn defnyddio gofal plant fel arfer, efallai bydd ei angen arnoch am gyfnodau penodedig byr. Gallai hyn fod yn ystod gwyliau ysgol, neu i gwmpasu argyfwng er enghraifft. Gallwch hawlio cymorth gyda'ch costau ar gyfer y cyfnod byr rydych angen y gofal plant ar ei gyfer. Golyga hyn y cyfrifir ac y telir am y cymorth gofal plant dros y cyfnod byr rydych yn defnyddio'r gofal. Er mwyn i hyn ddigwydd:

- rhaid i chi ddefnyddio gofal plant dim ond nawr ac yn y man – er enghraifft dim ond yn ystod gwyliau'r haf neu mewn argyfwng, a
- rhaid bod eich gofal plant am gyfnod penodedig – golyga hyn y byddwch yn gwybod pryd y bydd yn cychwyn ac yn dod i ben.

Fel arall bydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn cael ei gyfrifo a'i dalu dros 52 wythnos.

Os ydych eisoes yn derbyn credydau treth, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg i hawlio cymorth am gyfnod byr o ofal plant.

Gwnewch hyn cyn gynted a bo'ch gofal plant yn cychwyn, neu nid yn fwy na 7 diwrnod cyn hynny.

Bydd angen i chi ddweud y canlynol wrthym:

- dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen y gofal plant
- eich costau gofal plant gwirioneddol ar gyfer y cyfnod byr
- manylion eich darparwr gofal plant – eu henw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif cofrestru neu gymeradwy gofal plant.

Os nad ydych eisoes yn derbyn credydau treth, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais – *gweler* ***tudalen 10***.

Enghraifft – Rydych yn talu'n fisol, ond yn talu symiau gwahanol

Mae Bethan yn talu am gofal plant yn fisol ond mae'r swm mae hi'n talu yn newid o fis i fis.

Yn y 12 mis diwethaf costau Bethan oedd:

Un mis ar £240.	1 x £240 = £240
Tri mis ar £200.	3 x £200 = £600
Dau fis ar £320.	2 x £320 = £640
Chwe mis ar £160.	6 x £160 = £960
Cyfanswm am y flwyddyn	£2,440

I gyfrifo'r cyfartaledd, rhennir y cyfanswm â 52 (oherwydd bod 52 wythnos mewn blwyddyn).

Felly costau wythnosol cyfartalog Bethan yw £2,440 ÷ 52 = £47 (wedi'i talgrynnu).

Enghraifft – Rydych yn talu'n wythnosol ond yn talu symiau gwahanol

Mae Manon fel arfer yn talu £40 yr wythnos ar gyfer gofal plant. Ond ar gyfer 10 wythnos o'r flwyddyn, yn ystod gwyliau ysgol, mae'r gost yn mynd fyny i £120 yr wythnos.

Yn ystod y 52 wythnos diwethaf, costau Manon oedd:

10 wythnos o wyliau ysgol ar £120 yr wythnos.	10 x £120	= £1,200
42 wythnos arferol ar £40 yr wythnos.	42 x £40	= £1,680
Cyfanswm am 52 wythnos		= £2,880

I gyfrifo'r cyfartaledd, rhennir y cyfanswm â 52 (oherwydd bod 52 wythnos mewn blwyddyn).

Felly costau gofal plant wythnosol cyfartalog Manon yw £2,880 ÷ 52 = £56 (wedi'i talgrynnu).

Newidiadau mae angen i chi ddweud wrthym amdanynt – O fewn mis

Mae eich darparwr gofal plant yn peidio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy

Er enghraifft:

- mae cofrestriad eich darparwr gofal plant gydag Ofsted wedi cael ei ddileu
- mae eich darparwr gofal plant wedi penderfynu peidio ag adnewyddu eu cofrestriad.

Rydych yn rhoi'r gorau i ddefnyddio darparwr gofal cofrestredig neu gymeradwy

Er enghraifft:

- nid oes angen gofal plant ar eich plentyn rhagor
- rydych yn dechrau defnyddio darparwr nad yw'n gofrestredig neu'n gymeradwy.

Mae eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn mynd i lawr gan £10 neu fwy

Os ydych yn talu'r un swm bob wythnos, golyga hyn:
Ym mhob wythnos, am bedair wythnos yn olynol, mae eich costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn is na'ch hen gostau wythnosol.
Os nad ydych yn talu'n wythnosol, neu'n talu symiau gwahanol, golyga hyn:
Mae eich costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn is na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Gweler **tudalennau 16 ac 17** am enghreifftiau.

Mae eich costau gofal plant yn disgyn i sero

Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os bydd perthynas yn dechrau gofal am eich plentyn yng nghartref y plentyn.

Rydych yn dechrau cael cymorth arall tuag at eich costau gofal plant

Er enghraifft:

- rydych yn dechrau cael help ar gyfer eich gofal plant gan awdurdod lleol neu unrhyw adran o'r llywodraeth – megis y grant addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 a 4 blwydd oed.
- rydych yn dechrau cael cymorth ar gyfer eich costau gofal plant drwy eich cyflogwr, megis talebau gofal plant yn gyfnewid am ostyngiad yn eich cyflog (aberthu cyflog).

Rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted â phosib ac **o fewn mis** os bydd unrhyw un o'r newidiadau hyn yn digwydd.

Os ydych yn oedi cyn dweud wrthym ac os rydym yn talu gormod o gredydau treth i chi, bydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl. Efallai y byddwch hefyd yn agored i gosb o hyd at £300 os nad ydych yn ein hysbysu o'r newid o fewn y terfyn amser.

Newidiadau mae angen i chi ddweud wrthym amdanynt – O fewn tri mis

Mae eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn cynyddu gan £10 neu fwy

Os ydych yn talu'r un swm bob wythnos, golyga hyn:

Ym mhob wythnos, am bedair wythnos yn olynol, mae eich costau cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Os nad ydych yn talu'n wythnosol, neu os ydych yn talu symiau gwahanol, golyga hyn:

Mae eich costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Bydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn cynyddu o wythnos gyntaf y newid.

Gweler **tudalennau 16 ac 17** am ragor o wybodaeth ac enghreifftiau.

Os nad ydych chi'n dweud wrthym am y cynnydd yn eich costau gofal plant mewn da bryd efallai na chewch gymaint o gredydau treth ag y dylech. Er mwyn cael unrhyw gynnydd wedi ei ôl-ddyddio i'r wythnos y cynyddodd eich costau gyntaf, rhaid i chi ddweud wrthym o fewn tri mis i'r newid hwnnw.

Beth os yw'r newid yn fy nghostau gofal plant yn llai na £10 yr wythnos?

Nid yw hwn yn newid perthnasol ac nid oes yn rhaid i chi ddweud wrthym.

Rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted â phosib ac o fewn **tri mis** os bydd unrhyw un o'r newidiadau hyn yn digwydd i chi.

Sut i gyfrifo os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid

Gall eich costau gofal plant gynyddu neu ostwng.

Bydd sut rydych yn cyfrifo'r newidiadau yn eich costau gofal plant yn dibynnu ar sut wnaethoch gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn y lle cyntaf.

Os ydych yn talu'r un swm bob tro

Rydych yn talu'n wythnosol

Cyfrifwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd - **gweler tudalen 12** ynglŷn â sut i wneud hyn.

Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os yw'n wahanol gan £10 neu fwy yr wythnos, a bydd y newid yn para am bedair wythnos neu fwy, bydd angen i chi ddweud wrthym amdano.

Rydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall

Cyfrifwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd - **gweler tudalen 12** ynglŷn â sut i wneud hyn.

Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os yw'n wahanol gan £10 yr wythnos neu fwy, bydd angen i chi ddweud wrthym amdano.

Nid ydych yn talu'r un swm bob tro

Cyfrifwch eich costau wythnosol cyfartalog fel a ganlyn:

1. Ychwanegwch at ei gilydd yr hyn a ddisgwyliwch ei dalu yn gyfan gwbl dros y 52 wythnos (neu 12 mis os ydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall).
2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd.
3. Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os yw'n wahanol gan £10 neu fwy yr wythnos, bydd angen i chi ddweud wrthym amdano.

Rydych yn talu am ofal plant ar gyfer mwy nag un plentyn neu ar gyfer mwy nag un darparwr

Y newid yn y **cyfanswm** a dalwch bob wythnos yw'r hyn y mae gennym ddiddordeb ynddo:

1. Ychwanegwch at ei gilydd yr holl gostau gofal plant wythnosol cyfartalog a dalwch ar gyfer eich plant - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd.
2. Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os yw'n wahanol gan £10 neu fwy yr wythnos, bydd angen i chi ddweud wrthym amdano.

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosib, ac o fewn mis o ddyddiad y newid:

Os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog o leiaf £10 yn is na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Ni fydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn gostwng yn yr wythnos y digwyddodd y newid neu'r tair wythnos ddilynol.

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosib, ac o fewn tri mis o ddyddiad y newid:

Os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Byddwn yn cynyddu'r cymorth ar gyfer eich gofal plant o wythnos gyntaf y newid.

Enghraifft – Nid ydych yn talu'r un swm bob tro

Mae costau gofal plant Angharad yn amrywio, oherwydd ei bod yn talu mwy yn ystod gwyliau'r ysgol. Ei chostau wythnosol cyfartalog yw £56.

Ar 2 Hydref mae Angharad yn dechrau gweithio oriau byrrach a bydd hi angen i'w gwarchodwr plant ofalu am ei phlant am lai o oriau bob wythnos.
Mae hi nawr yn talu £30 yr wythnos yn ystod y tymor a £100 yr wythnos yn ystod gwyliau'r haf.

Yn ystod y 52 wythnos nesaf bydd Angharad yn gwario:

10 wythnos o wyliau'r ysgol ar £100 yr wythnos.	10 x £100 = £1,000
42 wythnos arferol ar £30 yr wythnos.	42 x £30 = £1,260
Cyfanswm ar gyfer 52 wythnos	£2,260

I gyfrifo'r cyfartaledd wythnosol newydd, rhennir y cyfanswm â 52 (oherwydd bod 52 wythnos mewn blwyddyn).

Felly cyfartaledd costau wythnosol newydd Angharad yw £2,260 ÷ 52 = £44 (wedi'i talgrynnu).

Mae hyn yn fwy na £10 yn is na'i hen gyfartaledd o £56 yr wythnos.
Mae'n rhaid i Angharad ddweud wrthym am y newid hwn o fewn mis.

Enghreifftiau – costau gofal plant yn cynyddu gan fwy na £10 yr wythnos

Enghraifft 1

Costau wythnosol cyfartalog Siôn yw £50. Wedyn mae ei gostau'n gostwng am chwe wythnos i £45 yr wythnos. Gall anwybyddu hyn gan fod y newid yn llai na £10 yr wythnos.

Ar ôl y chwe wythnos hynny, mae'n dechrau talu £70 yr wythnos ac yn disgwyl talu'r swm hwn o nawr ymlaen. Dyna gynnydd o fwy na £10 yr wythnos. Dylai ddweud wrthym cyn gynted â phosib, gan fod hawl ganddo i ragor o gymorth ar gyfer ei ofal plant.

Enghraifft 2

Mae costau gofal plant wythnosol cyfartalog Mair yn £50 oherwydd ei bod yn talu'r swm wythnos sefydlog hwnnw bob amser. Am bythefnos roedd angen i'w gwarchodwr plant ofalu am ei phlentyn am ragor o oriau ac fe'i talodd hi £20 yr wythnos yn ychwanegol. Mae pethau bellach yn ôl i drefn ac mae Mair yn talu £50 yr wythnos i'w gwarchodwr plant unwaith eto.

Does dim angen i Mair sôn am hyn gan nad yw'n newid perthnasol.

Ni barodd y cynnydd yn y costau gofal plant gwirioneddol o £10 neu fwy yr wythnos am bedair wythnos yn olynol, roedd yn gymwys i ddwy o'r wythnosau'n unig.

Enghraifft 3

Mae Rhisiart fel arfer yn talu £300 y mis am ofal plant cymeradwy. Mae ei gostau wythnosol cyfartalog, sef £70 yr wythnos, wedi'u cyfrifo fel a ganlyn:

Lluoswch y swm misol â 12: £300 x 12 = £3,600 a rhannwch y ffigur hwn â 52: £3,600 ÷ 52 = £70 (wedi'i dalgrynnu).

Ar 2 Gorffennaf mae plant Rhisiart yn dechrau mynd at warchodwr plant newydd sy'n codi £350 y mis. Mae angen iddo gyfrifo'i gostau wythnosol cyfartalog fel hyn.

Lluoswch y swm misol â 12: £350 x 12 = £4,200 a rhannwch y swm hwn â 52: £4,200 ÷ 52 = £81(wedi'i dalgrynnu).

Mae hynny'n gynnydd o fwy na £10 yr wythnos. Dylai Rhisiart ddweud wrthym cyn gynted â phosib neu o fewn tri mis er mwyn sicrhau nad yw ar ei golled wrth hawlio credydau treth.

Sut i gyfrifo os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid – parhad

Er mwyn osgoi cronni gordaliad o gredydau treth, rhowch wybod i ni am y newid cyn gynted â phosibl. Does dim rhaid i chi aros am bedair wythnos os ydych yn siŵr y bydd y newid yn para.

Er enghraifft, os ydych bellach yn defnyddio llai o ofal plant gan fod eich plentyn wedi dechrau yn yr ysgol.

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosib ac o fewn mis o ddyddiad y newid:

Os yw eich costau gofal plant wythnosol o leiaf £10 yn is na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Ni fydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn gostwng yn yr wythnos y digwyddodd y newid neu'r tair wythnos ddilynol.

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosib ac o fewn tri mis o ddyddiad y newid:

Os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Byddwn yn cynyddu'r cymorth ar gyfer eich gofal plant o wythnos gyntaf y newid.

Os ydych eisoes yn hawlio cymorth ar gyfer eich costau gofal plant, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar unwaith os bydd eich costau'n newid ac rydych yn credu y bydd angen i ni addasu eich dyfarniad.

Pa newidiadau eraill sydd gennych i ddweud wrthym?

Beth os ydych chi'n newid eich darparwr gofal plant?

Os ydych yn newid eich darparwr, dywedwch wrthym hyd yn oed os ydych yn parhau i dalu'r un swm i'r darparwr newydd, a rhowch y canlynol i ni:

- eu henw
- eu cyfeiriad
- eu rhif ffôn
- eu rhif cofrestru neu gymeradwyo, os rhoddwyd un iddynt fel rhan o'r broses gofrestru.

Rydym yn gwirio gyda darparwyr o bryd i'w gilydd, er mwyn cadarnhau bod manylion ceisiadau am ofal plant yn gywir. Os nad ydych yn rhoi'r manylion diweddaraf i ni, efallai byddwn yn cysylltu â'r darparwr anghywir. Os bydd hyn yn digwydd, ac ni allwn wirio manylion eich cais, gallem atal eich taliadau credydau treth ar gyfer eich gofal plant.

Rhowch yr wybodaeth gywir i ni ynglŷn â:

- eich darparwr gofal plant
- pryd rydych chi'n newid eich darparwr gofal plant
- y costau gofal plant rydych yn talu.

Os ydych yn oedi cyn dweud wrthym ac rydym yn talu gormod o gredydau treth i chi, bydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl. Gallech hefyd fod yn agored i gosb o hyd at £300 os nad ydych yn ein hysbysu am y newid o fewn y terfyn amser.

Cofiwch y gallwch hawlio cymorth dim ond ar gyfer gofal plant ar gyfer unrhyw blentyn hyd at:

- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 15 oed, neu
- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 oed os
  - yw'r plentyn ar gofrestr y deillion neu wedi dod oddi arno yn ystod y 28 wythnos diwethaf neu
  - rydych yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn.

Os ydych yn hawlio costau gofal plant ar gyfer mwy nag un plentyn, ac mae'r plentyn hŷn wedi cyrraedd y terfyn oedran, bydd yn rhaid i chi ail-gyfrifo eich costau gofal plant gan na fyddwch bellach yn gallu hawlio am ofal plant ar gyfer y plentyn. Os yw eich costau wythnosol cyfartalog yn gostwng gan £10 neu fwy, rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted â phosib, ac **o fewn mis**.

Cofiwch y byddwn yn rhoi'r gorau i'ch talu chi am eich gofal plant os ydych yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym **o fewn mis**:

- os rydych chi neu eich partner yn rhoi'r gorau i weithio
- os yw eich oriau gwaith arferol, neu eich partner, yn mynd yn is nag 16 awr yr wythnos.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa pan gawsant eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Tîm Gwybodaeth i Gwsmeriaid
Mehefin 2011 © Hawlfraint y Goron 2011

CThEM 04/11 L23064

Cyllid & Tollau EM